**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 1053

## Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2006

**Hysbysu ynghylch y clefyd mewn anifeiliaid buchol**

**5.**—(1) Rhaid i unrhyw berson sy'n amau fod anifail buchol sydd yn ei feddiant neu o dan ei ofal mewn unrhyw fangre yn anifail yr effeithiwyd arno, neu'n anifail a allai fod felly, wneud y canlynol yn ddi-oed—

(a) hysbysu'r Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol

(b) hyd y cwblheir yr ymchwiliad milfeddygol o dan erthygl 7 a chyflwyno unrhyw hysbysiad o dan yr erthygl honno—

(i) cadw'r anifail hwnnw yn y fangre lle mae ar yr adeg honno;

(ii) ei ynysu i'r graddau y mae hynny'n ymarferol oddi wrth anifeiliaid buchol eraill; a

(iii) arfer rhagofalon mewn perthynas â llaeth a gynhyrchwyd gan yr anifail hwnnw fel pe bai hysbysiad o dan erthygl 7 wedi'i gyflwyno'n barod.

(2) Rhaid i filfeddyg sy'n amau fod anifail a archwiliwyd ganddo yng nghwrs ei waith yn anifail yr effeithiwyd arno, neu'n anifail a allai fod felly, hysbysu'r Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol yn ddi-oed.